College of Policing

Working together to prevent crime

Cod Ymarfer Fetio

Gorffennaf 2023



College of Policing

Cod Ymarfer Fetio

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 39A(5) o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Adran 124(5) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

Gorffennaf 2023

Hawlfraint y Coleg Plismona Cyfyngedig 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.**

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sy'n hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/official-documents**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn **contactus@college.pnn.police.uk**

ISBN 978-1-5286-4280-4

E02936190 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cynnwys

1 Rhagymadrodd **1**

2 Pwrpas **2**

3 Cwmpas **3**

4 Sail statudol ar gyfer y Cod **5**

5 Gofynion prif swyddogion **6**

5.1 Dilysu 6

5.2 Cychwyn y broses fetio 6

5.3 Monitro anghymesuredd 6

5.4 Rhestrau Gwaharddedig a Chynghorol 6

5.5 Cydymffurfio ag APP 7

5.6 Gwneud penderfyniadau fetio 7

5.7 Gwybodaeth anffafriol neu wybodaeth arall 8

5.8 Strategaethau lliniaru risg 8

5.9 Gwiriadau uniondeb a newid mewn amgylchiadau 9

5.10 Fetio a chamymddwyn 9

5.11 Rhagdybiaeth y gellir ei gwrthbrofi 10

5.12 Cadw cofnodion 11

5.13 Sicrwydd gwneud penderfyniadau 11

5.14 Trosglwyddeion, ailymunwyr a chychwyn wedi'i oedi 11

5.15 Apeliadau 12

5.16 Lefelau fetio 12

5.17 Personél nad ydynt yn heddlu 13

5.18 Adolygu cliriadau fetio 13

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'n rhaid i bawb ym maes plismona gynnal y safonau moesegol a phroffesiynol uchaf, a gweithredu â'r cywirdeb eithaf. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod ffydd a hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth yn cael ei gynnal.

1.2 Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn hyderus bod prosesau fetio'r heddlu yn effeithiol wrth nodi'r rhai a allai achosi risg i eraill, neu sydd fel arall yn anaddas i weithio o fewn gwasanaeth yr heddlu.

1.3 Mae'n hollbwysig bod y rhai sy'n gweithio ym maes plismona hefyd yn gallu cynnal ymddiriedaeth a hyder eu prif gwnstabl i gyflawni eu rôl wrth ddarparu gwasanaethau plismona.

1.4 Mae fetio yn rhan annatod o fframwaith moeseg a safonau proffesiynol heddlu. Mae'n rhaid i fetio fod yn rhan o drefn ddiogelwch ehangach, yn hytrach na chael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun. Mae'n helpu i nodi unigolion sy'n anaddas i weithio o fewn gwasanaeth yr heddlu, neu i gael mynediad at asedau'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd:

- yn anaddas oherwydd gweithgaredd troseddol neu gysylltiad
- yn peri risg i'r cyhoedd ac i'r rhai sy'n arbennig o agored i niwed
- â diffyg gonestrwydd amlwg
- wedi ymddwyn yn flaenorol mewn modd sy'n anghyson â'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol
- yn agored i niwed yn ariannol

1.5 Mae trefn fetio drylwyr ac effeithiol yn elfen bwysig wrth ystyried addasrwydd unigolyn i weithio ym maes plismona. Mae asesiad o uniondeb a phroffesiynoldeb unigolyn ac arddangosiad o'r cymeriad disgwyliedig yn nodi a fydd yn cyflawni ac yn cynnal y lefel ofynnol o gliriad fetio. Mae hyn yn helpu i sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y rhai sy'n gweithio ym maes plismona i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

2 Pwrpas

2.1 Mae'r Cod Ymarfer Fetio yn nodi disgwyliadau prif swyddogion mewn perthynas â fetio, sydd i'w gweithredu gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

2.2 Mae'r Cod hwn wedi'i ddatblygu i helpu cyflawni, gweithredu a chynnal y safonau cenedlaethol, fel y'u nodir yn yr Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ategol, ac i sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws gwasanaeth yr heddlu.

3 Cwmpas

3.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn disodli'r holl Godau a gyhoeddwyd yn flaenorol mewn perthynas â fetio'r heddlu.

3.2 Mae'r Cod yn berthnasol i bawb sy'n ymgysylltu ar sail barhaol, dros dro, amser llawn, rhan-amser, achlysurol, ymgynghorol, dan gontract neu'n wirfoddol â'r heddlu, yn ogystal ag unrhyw unigolion sy'n gwneud cais i ymuno â'r gwasanaeth. Mae hefyd yn berthnasol i'r rhai mewn asiantaethau partner sydd â mynediad heb oruchwyliaeth i unrhyw adaeiladau heddlu neu wybodaeth heddlu nad yw ar gael i'r cyhoedd.

3.3 Pwrpas y Cod Ymarfer Fetio yw:

- nodi'r camau y mae'n rhaid i brif swyddog sicrhau eu bod yn cael eu cymryd ar gyfer fetio effeithiol yng ngwasanaeth yr heddlu
- sicrhau hyder bod pawb ym maes plismona yn cael eu fetio'n effeithiol, fel mai dim ond y rhai sy'n addas i weithio ym maes plismona, ac sy'n gallu cynnal y safonau disgwyliedig, sy'n gallu gwneud hynny
- hyrwyddo amgylchedd moesegol a phroffesiynol mewn plismona
- cynnal y Safonau Ymddygiad Proffesiynol
- sicrhau bod safonau fetio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws gwasanaeth yr heddlu

3.4 Cefnogir y Cod gan APP ar Fetio, a fydd yn disgrifio'r gweithdrefnau fetio, y prosesau technegol a'r manylion sydd eu hangen i weithredu fetio.

3.5 Mae'r Cod Ymarfer Fetio yn berthnasol i:

- holl heddluoedd Cymru a Lloegr
- unedau fetio, y tu allan i'r uchod, sy'n cynnal fetio'r heddlu
- y Coleg Plismona a'i bersonél
- ymgeiswyr i wasanaeth yr heddlu
- unigolion a benodwyd i, neu a gyflogir gan, heddluoedd, megis swyddogion heddlu, aelodau o staff yr heddlu ac aelodau o'r Heddlu Gwirfoddol

- unigolion a sefydliadau sy'n gweithio o dan gontract i, mewn partneriaeth â neu'n wirfoddol gyda heddluoedd yng Nghymru a Lloegr
- staff cyrff plismona lleol sydd â mynediad anghyfyngedig i unrhyw adeiladau heddlu neu wybodaeth heddlu nad yw ar gael i'r cyhoedd

Mae'r term 'cyrff plismona lleol' yn cyfeirio at:

- Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu
- y Llys Cyngor Cyffredin yn Ninas Llundain

3.6 Er bod y Cod Ymarfer yn berthnasol i Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, nid yw'n ofynnol i gomisiynwyr heddlu a throseddu a'u dirprwyon statudol gael eu fetio. Fodd bynnag, maent wedi'u dynodi'n weision y Goron (Gorchymyn Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 (Presgripsiwn) (Diwygio) 2012), ac felly maent yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf honno, sy'n cynnwys peidio â gwneud datgeliadau anawdurdodedig mewn perthynas â gwybodaeth sensitif.

3.7 Ni fydd fetio yn effeithiol os caiff ei ddefnyddio ar ei ben ei hun. Er y bydd fetio yn helpu i nodi llawer o risgiau, ni all nodi pob bygythiad a bregusrwydd. Mae'n rhaid iddo fod yn rhan o gyfundrefn ddiogelwch amddiffynnol ehangach.

4 Sail statudol y Cod

4.1 Mae'r Coleg Plismona wedi cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar Fetio fel cod ymarfer o dan **adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996**.

4.2 Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i'r heddluoedd a gynhelir ar gyfer ardaloedd heddlu Cymru a Lloegr, fel y'u diffinnir yn **adran 1 o Ddeddf yr Heddlu 1996** (neu fel y'i diffinnir mewn unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol). Mae'r Cod yn ymwneud yn benodol â phrif swyddogion wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

4.3 Wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth y mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol iddi, mae'n rhaid i brif swyddogion roi sylw i'r Cod hwn yn unol ag **adran 39A(7)**.

4.4 Gellir mabwysiadu'r Cod hwn â chaniatâd y Coleg ac mewn ymgynghoriad ag arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar gyfer fetio gan unrhyw wasanaeth plismona neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith y tu allan i adran 1 sydd â mynediad gweithredol at blismona.

5 Gofynion prif swyddogion

Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn, mae'n ofynnol i brif swyddogion gymryd y camau a ganlyn a darparu digon o adnoddau a goruchwyliaeth i sicrhau bod y fetio'n cael ei gyflawni'n effeithiol.

5.1 Dilysu

Cyn dechrau ar y broses fetio, mae'n rhaid i'r unigolyn gael ei ddilysu drwy'r broses recriwtio (neu noddi) ar wahân.

5.2 Dechrau fetio

Ni ddylai'r broses fetio ddechrau nes bod camau recriwtio ac asesu'r broses ymuno wedi'u cwblhau. Bydd fetio bob amser yn cael ei gynnal mor agos â phosibl at ddechrau penodiad neu gyflogaeth unigolyn, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a risgiau cyfredol yn cael eu hystyried.

5.3 Monitro anghymesuredd

Mae'n rhaid monitro canlyniadau ceisiadau fetio i sefydlu a oes effaith anghymesur ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Lle canfyddir anghymesuredd, dylid archwilio hyn i benderfynu pa gamau, os o gwbl, y gellir eu cymryd yn rhesymol i wrthsefyll hyn.

5.4 Rhestrau Gwaharddedig a Chynghorol

Pan fydd unigolyn yn cael ei ddiswyddo o blismona, mae'n rhaid nodi ei fanylion ar Restr Gwahardd yr Heddlu, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Yn yr un modd, os bydd unigolyn yn ymddiswyddo neu'n ymddeol tra'i fod yn destun ymchwiliad camymddwyn difrifol, mae'n rhaid i'w fanylion gael eu cofnodi ar y Rhestr Gynghori a'u cadw am gyhyd ag sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Bydd fetio yn gwirio a yw unigolyn yn 'berson gwaharddedig' ac os felly, ni ellir ei benodi na'i gyflogi i blismona. Yn yr un modd, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r risgiau sy'n ymwneud ag unigolyn ar Restr Cynghori'r Heddlu.

5.5 Cydymffurfio ag APP

O dan **adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996**, mae'n rhaid i brif swyddogion roi sylw i'r Cod Ymarfer Fetio statudol hwn.

Disgwylir i heddluoedd ystyried APP wrth gyflawni eu cyfrifoldebau a'r safonau a fabwysiadwyd. Dyma'r safon ar gyfer fetio'r heddlu ac mae'n darparu'r canllawiau gweithredol a'r manylion ar sut i gynnal fetio.

Bydd unrhyw heddlu (a ddiffinnir yn **adran 1 o Ddeddf yr Heddlu 1996**) sy'n cynnal fetio'r heddlu yn destun arolygiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), yn yr un modd ag unrhyw heddlu neu asiantaeth arall trwy gytundeb lle caiff y Cod hwn ei fabwysiadu.

5.6 Fetio gwneud penderfyniadau

Dim ond ar y lefel briodol y dylid gwneud penderfyniadau fetio, fel arfer rheolwr fetio'r heddlu neu unigolion enwebedig.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau fetio ar wahân i swyddogaethau recriwtio a swyddogaethau Adnoddau Dynol eraill ac yn annibynnol arnynt. Bydd perthynas waith effeithiol rhwng yr Adrannau fetio a Safonau Proffesiynol (PSDs), gan gynnwys Unedau Gwrthlygredd.

Wrth wneud y penderfyniad fetio, dylai'r penderfynwr gyfeirio at y **Model Penderfyniad Cenedlaethol** (NDM).

Ar ôl casglu'r wybodaeth angenrheidiol, mae'n rhaid penderfynu ar bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol. Asesu'r risgiau y mae'r unigolyn yn eu peri i'r cyhoedd a gwasanaeth yr heddlu, gan ystyried bygythiadau, bregusrwydd ac effaith. Wrth wneud penderfyniad, nid yw hyn yn sefydlu cynsail, gan fod pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.

Wrth wneud penderfyniadau fetio lle mae gwybodaeth anffafriol wedi'i hystyried, mae'n rhaid i'r penderfynwr gymhwyso'r prawf fetio.

1 A oes sail resymol dros amau bod yr ymgeisydd, aelod o'r teulu neu gydymaith perthnasol arall:
   - yn, neu wedi bod, yn ymwneud â gweithgaredd troseddol

- â gwendidau ariannol (ymgeisydd yn unig)
- sydd, neu wedi bod, yn destun unrhyw wybodaeth anffafriol

2 Os felly, a yw'n briodol, o dan yr holl amgylchiadau, i wrthod cliriad fetio?

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fetio ystyried gofynion deddfwriaeth berthnasol (fel Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwilio Troseddol 1996 a Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974) a chanllawiau cysylltiedig (fel pennod 18 o Lawlyfr Datgelu Gwasanaeth Erlyn y Goron).

5.7 Gwybodaeth anffafriol neu wybodaeth arall

Gall heddluoedd adolygu neu adnewyddu unrhyw gliriad cyn y dyddiad adolygu neu adnewyddu. Mae'n rhaid iddynt wneud hynny os daw gwybodaeth anffafriol i'r amlwg sy'n ymwneud â'r unigolyn, neu os bydd newid sylweddol yn amgylchiadau personol unigolyn.

Os na all person sy'n gweithio ym maes plismona gael y cliriad fetio gofynnol i gyflawni ei rôl, bydd yr heddlu yn ystyried rôl addas arall â lefel is o gliriad fetio. Os nad yw rôl o'r fath ar gael neu os na ellir caniatáu cliriad ar y lefel isaf, bydd yr unigolyn yn destun achos diswyddo, gan fod cliriad fetio yn un o ofynion ei rôl.

5.8 Strategaethau lliniaru risg

Lle rhoddir cliriad fetio ar ôl ystyried gwybodaeth anffafriol, mae'n rhaid ystyried strategaethau lliniaru risg. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ar y cyd â'r Uned Gwrthlygredd, PSD ac AD, fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i strategaethau lliniaru risg fod yn gyraeddadwy, yn rhesymol, yn gymesur ac yn gyfiawnadwy, â chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.

Mae'n rhaid i bob strategaeth lliniaru risg fod yn destun trosolwg ac adolygiad cadarn.

Er budd tryloywder, gellir hysbysu'r gwrthrych am unrhyw fesurau lliniaru risg, strategaethau neu amod, yn enwedig lle mae'n gosod dyletswydd neu rwymedigaeth ar unigolyn, oni bai bod rheswm y gellir

ei gyfiawnhau pan nad yw hyn yn ymarferol, megis lle mae tactegau cudd yn cael eu defnyddio.

5.9 Gwiriadau uniondeb a newid mewn amgylchiadau

Yn unol â pholisïau atal llygredd a mesurau cydymffurfio cysylltiedig, cynhelir gwiriadau cywirdeb parhaus ar bawb sy'n gweithio ym maes plismona. Bydd hyn yn cynnwys y cyfle i nodi a oes unrhyw newid yn amgylchiadau unigolyn a allai effeithio ar eu cliriad fetio ac, os felly, i gymryd camau priodol.

Bydd proses glir ar gyfer adrodd yn amserol ar newidiadau mewn amgylchiadau a allai gael effaith ar gliriad fetio, ynghyd â chyfathrebu rheolaidd i atgoffa unigolion o'u cyfrifoldeb yn hyn o beth, ynghyd â'r mathau o newidiadau y dylent fod yn ymwybodol ohonynt.

5.10 Fetio a chamymddwyn

Ar ôl i achos camymddwyn sy'n arwain at sancsiwn heblaw am ddiswyddo ddod i ben, bydd cliriad fetio unigolyn yn cael ei adolygu. Nid yw hyn yn atal penderfyniad i adolygu cliriad fetio, hyd yn oed lle na roddir sancsiwn (gweler yr adran uchod ar 'Gwybodaeth anffafriol neu wybodaeth arall'). Gall yr adolygiad hwn arwain at y cliriad fel a ganlyn:

- rhoddir
- rhoddir ag amodau
- wedi'i israddio (gyda neu heb amodau)
- gwrthodir

Os na all person sy'n gweithio ym maes plismona gael y cliriad fetio gofynnol i gyflawni ei rôl, bydd yr heddlu yn ystyried rôl addas arall â lefel is o gliriad fetio. Os nad yw rôl o'r fath ar gael neu os na ellir caniatáu cliriad ar y lefel isaf, bydd yr unigolyn yn destun achos diswyddo, gan fod cliriad fetio yn un o ofynion ei rôl.

I'r rhai sy'n gweithio ym maes plismona, os canfyddir bod newid mewn amgylchiadau nad yw wedi'i adrodd i'r uned fetio yn unol â gweithdrefn yr heddlu, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a ddylai fod wedi'i

datgelu ar ffurflen fetio, gall yr heddlu ystyried a yw atgyfeiriad ar gyfer ymchwiliad camymddwyn yn briodol.

5.11 Y rhagdybiaeth wrthbrofadwy

Gall hyder y cyhoedd gael ei effeithio os oes gan unigolyn sy'n gweithio ym maes plismona euogfarn neu rybudd. Mae rhagdybiaeth y gellir ei gwrthbrofi, yn amodol ar amodau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, na fydd person yn addas i gael cliriad fetio os oes ganddo euogfarn neu rybuddiad am drosedd, yn enwedig os yw:

- yn ymwneud ag arferion anonest neu lygredig
- yn ymwneud â thrais
- yn dangos targedu pobl oherwydd eu gwendidau neu eu nodweddion gwarchodedig

Mae'r ffactorau a allai bwyso yn erbyn y rhagdybiaeth hon sy'n cael ei defnyddio mewn achosion unigol yn cynnwys:

- natur a difrifoldeb y drosedd
- oedran y person ar yr adeg y cyflawnodd y drosedd
- hyd yr amser ers i'r drosedd gael ei chyflawni

Mae'n rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, gan gynnwys rôl yr unigolyn yn y drosedd a natur yr euogfarn neu rybudd.

Mae cliriad fetio ar gyfer swyddog heddlu, cwnstabl gwirfoddol neu aelod o staff yr heddlu i'w wrthod ym mhob achos lle cafoidd naill ai:

- troseddau a gyflawnwyd fel oedolyn neu berson ifanc a arweiniodd at ddedfryd o garchar (gan gynnwys dedfrydau o garchar, gohiriedig neu a oedwyd a dedfrydau a gyflawnwyd mewn sefydliad troseddwyr ifanc neu gartref cymunedol)
- mae'r unigolyn yn droseddwr rhyw cofrestredig, neu wedi bod yn droseddwr rhyw cofrestredig neu'n destun gofyniad cofrestru mewn perthynas ag unrhyw euogfarn arall

5.12 Cadw cofnodion

Mae'n rhaid i heddluoedd gofnodi:

- gwybodaeth a ddarperir gan yr unigolyn sy'n gwneud y cais fetio
- canlyniadau ymholiadau fetio
- lle mae gwybodaeth anffafriol wedi'i datgelu a'i hystyried
- sail resymegol eglur

Mae'n rhaid i heddluoedd gadw cofnodion yn unol â gofynion diogelu data a rheoli gwybodaeth yr heddlu. Mae'n rhaid cofnodi sail resymegol lawn yn unol â'r NDM lle mae cliriad fetio fel a ganlyn:

- rhoi gydag amodau, megis strategaethau lliniaru risg
- tynnu'n ôl
- gwrthod

Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at Fetio APP a sut mae'n berthnasol i amgylchiadau penodol yr achos sy'n cael ei ystyried.

Mae'n rhaid i bob penderfyniad lle mae gwybodaeth anffafriol wedi'i hystyried, gan gynnwys achosion lle mae gan y gwrthrych euogfarnau troseddol blaenorol, fod yn hawdd i'w hadnabod o fewn systemau rheoli achosion fetio.

5.13 Sicrwydd gwneud penderfyniadau

Bydd penderfyniadau fetio yn destun archwiliad sampl cyfnodol.

Pwrpas yr archwiliad fydd rhoi sicrwydd ynghylch cymesuredd penderfyniadau, ansawdd y rhesymeg ac a yw strategaethau lliniaru risg yn briodol ac yn hylaw.

5.14 Trosglwyddeion, ailymunwyr a chychwyn wedi'i oedi

Pan fydd y rhai sy'n gweithio ym maes plismona yn gwneud cais i drosglwyddo i heddlu arall (sy'n cael ei wasanaethu gan uned fetio wahanol), bydd y llu rhiant yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol am y trosglwyddai y gofynnir amdani, er mwyn galluogi asesiad risg effeithiol yn y broses o gynnal adolygiad llawn. - ailfetiad llawn o'r trosglwyddai.

Os yw unigolyn sy'n gwneud cais i drosglwyddo yn destun ymchwiliad camymddwyn ar hyn o bryd, mae'n rhaid ceisio cytundeb i'r trosglwyddiad gan y Pennaeth Safonau Proffesiynol neu'r awdurdod priodol, ar gyfer y llu rhiant a'r llu sy'n derbyn.

Os gwrthodir trosglwyddai, yna mae'n rhaid i'r heddlu sy'n gwneud y penderfyniad hwnnw hysbysu'r llu rhiant am y penderfyniad hwnnw a'u rhesymau. Mae'n rhaid i'r llu rhiant gynnal adolygiad.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud cais i ailymuno â phlismona, ar ôl gadael, er enghraifft, drwy ymddeoliad neu gyflogaeth arall, gael eu hailfetio'n llawn cyn dechrau gweithio ym maes plismona.

Pan fo oedi mewn cyflogaeth neu wasanaeth, a lle nad yw hyn wedi dechrau o fewn chwe mis ar ôl rhoi cliriad fetio, mae'n rhaid ailfetio'r unigolyn. Dylai fetio ddigwydd mor hwyr â phosibl yn y broses recriwtio i sicrhau bod unrhyw risgiau cyfredol yn cael eu hasesu.

5.15 Apeliadau

Pryd bynnag y caiff cliriad fetio ei wrthod, ei roi gydag amodau neu ei dynnu'n ôl, bydd gan yr unigolyn yr hawl i apelio drwy broses sy'n annibynnol ar y penderfyniad gwreiddiol.

Gall y broses apelio ystyried pob opsiwn. Gall ddod i'r casgliad o unrhyw opsiwn y mae'n ei ystyried yn rhesymol a chymesur, gan gynnwys gwrthod a dileu unrhyw gliriad.

Bydd gan yr unigolyn hawl i gael sail resymegol ar gyfer unrhyw benderfyniad apêl fetio os bydd yn gofyn amdano, a ddylai esbonio'r rhesymau'n foddhaol oni bai bod eithriadau'n berthnasol.

5.16 Lefelau fetio

Mae'n rhaid i'r heddlu gadw manylion pob swydd o fewn yr heddlu sy'n dangos:

- y swyddog neu aelod o staff sy'n dal y swydd
- lefel y cliriad fetio sydd ei angen ar gyfer y swydd

- lefel y cliriad fetio sydd gan ddeiliad y swydd (mae'r cliriad fetio sydd ei angen yn ymwneud â risgiau a nodwyd ac nid gradd neu reng swydd)
- dyddiad adnewyddu'r cliriad hwnnw

Bydd unrhyw adolygiad o gyfrifoldebau swydd neu ddisgrifiad swydd yn gofyn am adolygiad o'r lefel fetio briodol ar gyfer y swydd honno.

5.17 Personél nad ydynt yn heddlu

Mae'n rhaid i bob unigolyn nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan, neu wedi'i benodi i, heddlu sydd angen mynediad heb oruchwyliaeth i eiddo'r heddlu, systemau, gwybodaeth neu asedau eraill gael eu fetio i'r lefel briodol.

Nid yw'n ofynnol i unigolion y mae'r heddlu'n darparu gwybodaeth iddynt yn ystod eu dyletswyddau proffesiynol, at ddiben cyflawni'r dyletswyddau hynny'n unig (lle na cheir yr wybodaeth honno drwy fynediad uniongyrchol neu drwy chwilio drwy systemau'r heddlu eu hunain), fod yn destun fetio gan yr heddlu.

Ni all y gofyniad am fetio'r heddlu gael ei negyddu o dan unrhyw amgylchiadau trwy gliriad a gynhelir o dan unrhyw drefn fetio arall.

5.18 Adolygu cliriadau fetio

Rhoddir pob cliriad fetio am gyfnod penodol o amser. Pan fydd y cyfnod yn dod i ben, os bydd ei angen o hyd, bydd yr unigolyn yn destun ailfetio llawn.

Bydd pob cliriad fetio yn cael ei reoli i sicrhau addasrwydd parhaus ar gyfer clirio, sy'n cynnwys y broses adolygu.

E02936190
978-1-5286-4280-4